# Ordinhad 13

# Y Llys

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 25 Tachwedd 2024 |
| **Perchennog y Polisi:** | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| **Swyddog Polisi:** | Swyddog Contractau |
| **Statws y Polisi:** | Diwygiwyd |
| **Fersiwn:** | 2.1 |
| **Dyddiad adolygu:** | Hydref 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | Hydref 2026 |

# Ordinhad 13
# Y Llys

1. Cyfansoddiad y Llys

O dan baragraff 15 o'r Siarter, penderfynir y bydd gan y Llys y pwerau a'r swyddogaethau hynny y dirprwyir iddo gan y Cyngor.

Y canlynol fydd aelodau'r Llys:

a. Aelodau ex-officio:

   i. Y Canghellor
   ii. Y Dirprwy Ganghellor(ion)
   iii. Y Llywydd/Is-ganghellor;
   iv. Y Dirprwy(on) i'r Is-ganghellor a'r Dirprwy Is-ganghellor(ion);
   v. Aelodau'r Cyngor
   vi. Llywydd Undeb y Myfyrwyr
   vii. Llywydd Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor

b. Cynrychiolwyr y Gymuned: Y cyfryw aelodau i'w pennu o bryd i'w gilydd. Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn cynnal Cofrestr gyfoes o Gynrychiolwyr Cymunedol yn cofnodi manylion pob aelod. Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn sicrhau bod y Gofrestr o Gynrychiolwyr Cymunedol ar gael i aelodau'r Cyngor ei harchwilio ar gais.

c. Cynrychiolwyr Undebau Llafur y Campws

   i. Llywydd pob un o undebau llafur cydnabyddedig y campws.

d. Cynrychiolydd cyn-fyfyrwyr

   i. Y Cadeirydd ac un cynrychiolydd arall (a enwebwyd gan y Bwrdd) o Fwrdd Ymgynghorol Cyn-fyfyrwyr y Brifysgol.

e. Cynrychiolwyr o'r Sector Heddlu a Throseddu

   i. Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru
   ii. Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru

f. Cynrychiolwyr Cyrff Diwylliannol, Addysgol, Proffesiynol a Dysgedig: Y cyfryw aelodau i'w pennu o bryd i'w gilydd. Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn cynnal Cofrestr gyfoes o Gynrychiolwyr Cyrff Diwylliannol, Addysgol, Proffesiynol a Dysgedig yn cofnodi manylion pob aelod. Bydd Ysgrifennydd y Llys yn sicrhau bod y Gofrestr o Gynrychiolwyr Cyrff Diwylliannol, Addysgol, Proffesiynol a Dysgedig ar gael i'w harchwilio gan aelodau'r Cyngor ar gais.

g. Cynrychiolwyr Cyrff Diwydiannol, Masnachol ac Amaethyddol: Y cyfryw aelodau i'w pennu o bryd i'w gilydd. Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn cynnal Cofrestr gyfoes o Gynrychiolwyr Cyrff

Diwydiannol, Masnachol ac Amaethyddol yn cofnodi manylion pob aelod. Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn sicrhau bod y Gofrestr o Gynrychiolwyr Cyrff Diwydiannol, Masnachol ac Amaethyddol ar gael i aelodau'r Cyngor ei harchwilio ar gais.

h) Ysgrifennydd y Brifysgol, neu ei enwebai, fydd ysgrifennydd y Llys.

2. Cyfarfod cyhoeddus yw'r Llys, ond dim ond aelodau sy'n cael pleidleisio ar unrhyw fater.

3. Telerau Aelodaeth y Llys

   a. Bydd aelodau cynrychioliadol yn gadael y swydd pan fyddant yn peidio â bod yn aelodau o'r corff a'u penododd, ac eithrio mewn achosion lle nad oeddent yn aelod o'r cyfryw gorff pan wnaed y penodiad.
   b. Bydd aelodau ex-officio yn aelodau o'r Llys dros gyfnod eu tymor perthnasol mewn swydd.
   c. Gall aelod o'r Llys ymddiswyddo ar unrhyw adeg drwy ysgrifennu at Ysgrifennydd y Llys.
   d. Rhaid i'r person neu'r corff a benododd unrhyw aelod o'r Llys y daw ei swydd yn wag gymryd camau i lenwi'r swydd wag cyn gynted â phosibl.

4. Pwerau'r Llys

   a. Derbyn, cynnig sylwadau a gofyn cwestiynau am adroddiadau ar waith y Brifysgol;
   b. Derbyn, cynnig sylwadau a gofyn cwestiynau am y Datganiadau Ariannol Archwiliedig Blynyddol;
   c. Trafod unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r Brifysgol a gwneud argymhellion i'r Cyngor fel y gwêl yn dda; a
   d. Gweithredu fel fforwm i drafod swyddogaeth y Brifysgol yn y gymuned.

5. Cyfarfodydd y Llys

   a. Bydd y Llys yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn i dderbyn gwybodaeth am waith y Brifysgol.

   b. Bydd Cyfarfod Blynyddol y Llys yn cynnwys:

      i. Croeso gan y Canghellor;
      ii. Adroddiad ar waith y Brifysgol gan y Llywydd/Is-ganghellor;
      iii. Y cyfrifon blynyddol;
      iv. Cyflwyniadau eraill ar weithgaredd y Brifysgol.

   c. Dosberthir rhaglen cyfarfod y Llys yn Gymraeg ac yn Saesneg.

   d. Bydd gan bob aelod yr hawl, wrth annerch y Llys, i siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg.

   e. Gall aelod o'r Llys gynnig penderfyniad i'w drafod mewn cyfarfod Llys. Dylid hysbysu Ysgrifennydd y Llys o leiaf dri diwrnod cyn cyfarfod y Llys, o'r bwriad i gynnig penderfyniad o'r fath.

f. Yn ogystal â'r aelodaeth a amlinellir yn yr Ordinhad hwn, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i anfon gwahoddiadau ychwanegol, yn ôl yr angen, i unrhyw gyfarfod o'r Llys.